# Y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Dangosfwrdd Pensiynau

Bydd y Dangosfwrdd Pensiynau yn galluogi pobl i gael mynediad at wybodaeth yn ymwneud â'u holl bensiynau ar-lein, yn ddiogel ac i gyd mewn un lle. Bydd yn darparu gwybodaeth glir a syml ynglŷn â chynilion pensiwn niferus, gan gynnwys Pensiwn y Wladwriaeth.

Gyda rhyddhau'r Dangosfwrdd Pensiynau'n nesáu mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn ddiweddar wedi ymgymryd ag ymarfer glanhau data ar gyfer aelodau ein Cronfa sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i sicrhau fod gennym ni wybodaeth gyfredol amdanynt.

Er mwyn i chi allu gweld eich pensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar y Dangosfwrdd Pensiynau, rydym angen eich gwybodaeth fwyaf cyfredol. Os ydych yn cael eich cynnwys yn ein hymarfer glanhau data, byddwch wedi derbyn llythyr gyda manylion ynglŷn â sut i roi gwybod i ni am eich gwybodaeth fwyaf cyfredol.

Os ydych chi'n credu y gall eich gwybodaeth fod yn anghywir, fe allwch gofrestru neu fewngofnodi i'r adran Hunan-Wasanaeth Aelodau i ddiweddaru hyn: **https://mss.clwydpensionfund.org.uk**

Neu gallwch anfon e-bost at **hwa@siryfflint.gov.uk** neu ysgrifennu at Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA.  Os ydych yn anfon e-bost neu'n ysgrifennu atom, cofiwch gynnwys eich enw, rhif Yswiriant Gwladol a'ch dyddiad geni.